UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Tâl a Phensiynau

Y Trothwy Perfformiad

Rownd 10, 2009-10

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

Y Trothwy Perfformiad (Rownd 10, 2009-2010)

Cefndir: Strwythur Cyflogau Athrawon

Ers Medi 2004 mae strwythur cyflogau athrawon yn cynnwys graddfa gyflogau o 6 phwynt (M1-M6) ynghyd ag amrediad cyflog uwch o 3 phwynt (U1-U3).

Mae lwfansau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (CAD), Anghenion Addysg Arbennig a Recriwtio a Chadw, hefyd, yn rhan o strwythur cyflogau athrawon.

Ceir rhestr lawn o'r cyflogau a lwfansau presennol ym Mlwyddlyfr cyfredol UCAC; neu cysylltwch â'r Brif Swyddfa i gael copi o'r rhestr hon.

i) Prif raddfa gyflogau

Mae athrawon cymwysedig yn dechrau ar o leiaf pwynt 1 ar y raddfa gyflogau.

Mae hawl gan y corff perthnasol gynnig pwyntiau ychwanegol am brofiad perthnasol y tu allan i ddysgu.

Bydd athrawon yn derbyn 1 pwynt am bob blwyddyn o wasanaeth sydd ganddynt hyd nes cyrraedd pwynt 6. Onid yw perfformiad athro yn foddhaol yn dilyn yr adolygiad blynyddol, nid oes rhaid cynnig pwynt ychwanegol iddo/i. Gall athrawon sy'n perfformio'n arbennig o dda yn ystod y flwyddyn dderbyn dau bwynt.

Ar ôl cyrraedd pwynt 6 bydd modd gwneud cais i symud i fyny i'r Amrediad Cyflog Uwch (Croesi'r Trothwy).

ii) Amrediad cyflog uwch

Pan fydd athro'n cyrraedd pwynt 6 ar y brif raddfa gyflogau (p'un ai fel athro rhan-amser, llawn-amser, neu athro cyflenwi) gall wneud cais i symud i'r **amrediad cyflog uwch** wrth gyflwyno cais am asesiad yn erbyn y **Safonau Ôl-drothwy**. Noder mai cyrraedd y pwynt sy'n cyfrif, nid nifer y blynyddoedd o addysgu.

Mae gwneud cais am asesiad yn erbyn y Safonau Ôl–drothwy yn broses wirfoddol.

Er mwyn bod yn gymwys i gyflwyno cais mae'n rhaid eich bod mewn swydd ar ddyddiad cyflwyno'r cais, h.y. mae'n rhaid eich bod yn gyflogedig fel athro a bod gennych gytundeb cyflogaeth neu gytundeb am wasanaethau gyda chorff

llywodraethol ysgol neu gydag AALl.

Mae hawl cyflwyno cais ar gyfnod pan rydych yn absennol o'r gwaith, e.e. ar gyfer absenoldeb mamolaeth, absenoldeb salwch, secondiad, seibiant astudio, seibiant gyrfa.

Cyn cael eich asesu yn erbyn y Safonau Ôl-drothwy, mae'n rhaid eich bod yn cyrraedd gofynion y Safonau Diwedd Sefydlu (*gweler yr adran ar Safonau Diwedd Sefydlu isod a'r atodiad ar ddiwedd y daflen*).

Os fyddwch, yn ôl yr asesiad, yn cyrraedd y Safonau Ôl-drothwy, cewch eich rhoi ar bwynt U1 (Uwch 1 / *Upper Pay Scale 1*) o'r amrediad cyflog uwch.

Bydd y canlynol yn mynd ar y raddfa uwch yn awtomatig:

- athro dosbarth a gyflogwyd diwethaf fel Pennaeth, Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol, (a gweithiodd yn y fath swydd am o leiaf blwyddyn, os apwyntiwyd ef/hi i'r swydd ar ôl 1 Medi 2000)
- athro dosbarth fu'n gweithredu fel Athro Uwch Fedrau (AUF)
- athro dosbarth sydd wedi ei gymhwyso yn AUF, ond sydd heb ei benodi yn y rhinwedd hwn
- athro a gyflogwyd fel Ymgynghorydd neu Arolygydd gan AALl, am gyfnod heb fod yn llai na blwyddyn, a chyflogwyd ar raddfa gyflog Soulbury

Bydd y corff perthnasol yn dewis pa bwynt ar yr amrediad cyflog uwch i osod yr athrawon hyn.

iii) Ceisiadau 2009-2010

Gall athro a fu'n aflwyddiannus mewn rownd flaenorol neu sydd yn dal i aros am ganlyniad apêl, wneud cais eto yn Rownd 10.

Bydd gan Rownd 10 ddwy garfan:

Carfan 17

- y sawl oedd yn addysgu tu allan i'r sector a gynhelir ar neu ar ôl 01/09/08 neu ar neu cyn 31/8/09 ac wedi cwblhau 6 mlynedd fel athro cymwysedig
- y sawl a fethodd gyflwyno cais mewn rownd flaenorol oherwydd ei fod yn derbyn cyflog aelod o'r grŵp arweinyddiaeth (dros dro) ar neu cyn 31/08/09, e.e. dirprwy bennaeth gweithredol

Os ydych yn llwyddiannus caiff y tâl ychwanegol ei ôl-ddyddio i 1 Medi 2009.

- y sawl ddaeth yn gymwys i wneud cais am y tro cyntaf mewn rownd flaenorol ond na lwyddodd i fodloni'r safonau; **neu**
- y sawl ddaeth yn gymwys i wneud cais am y tro cyntaf yn Rownd 10 (cyrraedd pwynt 6 ar y brif raddfa M6 Medi 2009 neu cyn 31 Awst 2010)

Os ydych yn llwyddiannus, telir yr ychwanegiad i'r cyflog o 1 Medi 2010.

Noder: os yn llwyddiannus bydd y sawl a gyflwynodd cais mewn rownd flaenorol ond oedd heb dderbyn asesiad o'r cais o fewn yr amser cywir, yn derbyn ôl-daliad yn dilyn trefniadau'r STPCD y flwyddyn berthnasol. Bydd trefniadau o'r fath yn diogelu ymgeiswyr Rownd 10, felly beth bynnag yw'r sefyllfa o fewn yr ysgol mae'n bwysig i chi gyflwyno'ch cais yn ystod y cyfnod sydd yn berthnasol i chi.

- Ni fyddwch yn derbyn tystysgrif trothwy ffurfiol pan fyddwch yn bodloni'r Safonau Ôl-drothwy.
- Cyfrifoldeb yr ysgol / cyflogwr fydd **hysbysu'r AALl** sydd yn delio â materion cyflogau'r ysgol i ddweud bod athro wedi cyrraedd y Safonau Ôl-drothwy. Gwneir hyn yn y ffordd arferol y mae'r Corff Llywodraethol yn hysbysu'r AALl o unrhyw benderfyniadau mawr am gyflogau neu benodiad newydd.
- Rhaid sicrhau bod yr hysbysiad yn cynnwys gwybodaeth am y garfan mae'r athro yn perthyn iddi.
- Mae modd ail-geisio i groesi'r trothwy i'r amrediad cyflog uwch, ond dim ond unwaith mewn unrhyw flwyddyn ysgol mae modd gwneud cais.

iv) Y broses

Y ffurflen gais

Mae'r ffurflen gais ar gael o wefan www.teachernet.gov.uk yn y Gymraeg a'r Saesneg, ynghyd â chanllawiau manwl: www.teachernet.gov.uk/management/payandperformance/threshold

Gwnewch yn siŵr bod gennych y ffurflen berthnasol ar gyfer Rownd 10, 2009-2010.

Darllenwch y cyfarwyddiadau'n ofalus. Bydd angen clustnodi digon o amser ar gyfer llenwi'r ffurflen. Awgrymir eich bod yn gwneud llungopi o'r ffurflen gais er mwyn llunio copi drafft; eithriad fydd cael popeth yn iawn y tro cyntaf.

Mae'r Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF) yn gofyn i chi naill ai ddefnyddio cyfrifiadur neu ysgrifennu'n glir mewn inc du.

Nid oes angen ysgrifennu mewn brawddegau llawn.

Nid oes angen paratoi portffolio o dystiolaeth na chyflwyno unrhyw dystiolaeth gyda'r ffurflen ond bydd disgwyl i chi gyfeirio at enghreifftiau penodol o'ch gwaith i gefnogi'ch cais. Gall y pennaeth ofyn i weld y dystiolaeth.

Byddwch yn ffeithiol, yn gryno ac yn wrthrychol. Rhowch enghreifftiau pendant o'ch gwaith dyddiol, er mwyn dangos sut rydych eisoes yn cyrraedd y Safonau Ôl-drothwy. Mae hawl defnyddio'r un enghreifftiau fwy nag unwaith lle mae'n briodol ac yn bwrpasol. Cyfeiriwch at dystiolaeth y gellir ei chadarnhau a nodi lle gellir dod o hyd i'r dystiolaeth.

Dylai'r enghreifftiau fod o waith o ddydd i ddydd dros gyfnod y 2 flynedd yn arwain i fyny at y cais (neu, mewn eithriadau arbennig, dwy flynedd o addysgu yn ystod y pum mlynedd yn arwain at y cais).

Cyfeiriwch at dystiolaeth o ysgol arall, yn ôl y galw.

Safonau Diwedd Sefydlu

Mae disgwyl i athrawon sydd am wneud cais i groesi'r Trothwy fodloni'r safonau craidd, sef, y Safonau Diwedd Sefydlu yng Nghymru (gweler yr atodiad ar ddiwedd y daflen).

Bydd y Pennaeth yn gorfod ystyried hyn yn awtomatig pan fyddwch yn cyflwyno'ch cais ar gyfer y Trothwy.

Os byddwch yn cyrraedd y Safonau Diwedd Sefydlu yna bydd y Pennaeth yn mynd ati i gwblhau'r asesiad Trothwy.

Os nad ydych yn ateb gofynion y Safonau Diwedd Sefydlu ni fydd modd mynd ymlaen â'r cais Trothwy ac ni fydd modd ail-ymgeisio tan y flwyddyn addysgol ganlynol. Bydd y Pennaeth yn gwrthod y dystiolaeth am y cais Ôl-drothwy a hysbysu'r corff llywodraethol; rhaid hysbysu'r athro o'r penderfyniad o fewn 20 diwrnod.

Nid oes disgwyl i chi gyfeirio at y safonau craidd yn eich ffurflen gais ar gyfer y Trothwy.

Asesiad y Pennaeth a derbyn adborth

Cyfrifoldeb proffesiynol y Pennaeth, yw penderfynu ar bob cais yn unigol (gweler paragraff 57.10 o'r STPCD). Efallai bydd angen i'r Pennaeth dderbyn gwybodaeth oddi wrth eraill, e.e. Tîm Rheoli, Pennaeth Adran ond nid oes hawl dirprwyo'r asesiad i aelod arall o staff heblaw mewn achos o absenoldeb; mewn achos o'r fath dim ond y Dirprwy all gwblhau'r asesiad ar

gyfer Safonau Ôl-drothwy.

Os nad ydych yn gyflogedig mewn ysgol benodol, e.e. athro bro, athro peripatetig, yna cyflwynwch eich cais i'r person sydd â chyfrifoldeb rheolaethol drosoch; bydd disgwyl i'r person hwnnw weithredu yn yr un modd â Phennaeth ysgol wrth gyflawni'r asesiad Trothwy.

Dylai'r Pennaeth gydnabod yn ysgrifenedig derbyn eich cais.

Mae disgwyl i'r Pennaeth gadw manylion eich cais ac unrhyw ddogfennau perthnasol yn gyfrinachol, yn unol â rheoliadau Rheoli Perfformiad. Dylid rhannu gwybodaeth gydag eraill dim ond pan fod rheswm digonol, "*on a strict need to know basis*."

Os ydych yn dibynnu ar dystiolaeth o fwy nag un ysgol, e.e. os ydych yn athro cyflenwi neu'n athro sydd newydd symud ysgol, cyflwynwch y cais i'r Pennaeth yn yr ysgol ble mae gennych gytundeb gwaith ar hyn o bryd.

Os ydych yn gyflogedig yn rhan amser mewn mwy nag un ysgol, cyflwynwch eich cais yn yr ysgol ble rydych yn gweithio'r mwyaf o oriau. Os nad oes gwahaniaeth mewn oriau, yna rhowch ef i'r ysgol a'ch cyflogodd gyntaf.

Bydd hawl gan y Pennaeth ofyn i weld y dystiolaeth rydych yn cyfeirio ato yn eich cais, ond nid oes disgwyl i chi baratoi portffolio o dystiolaeth at y pwrpas.

Mae disgwyl i'r Pennaeth roi adborth i'r athro o fewn 20 niwrnod gwaith o hysbysu'r corff perthnasol (Llywodraethwyr, gan amlaf) o lwyddiant neu fethiant y cais. Ar gyfer Penaethiaid mae ffurflen adborth pwrpasol ar gael o: www.teachernet.gov.uk/threshold

Mewn achos o absenoldeb y Pennaeth gall y gwaith o roi adborth gael ei ddirprwyo i'r Dirprwy (yn unig).

Dylai'r **ffurflen gais wreiddiol gael ei dychwelyd**, yn cynnwys sylwadau a chanfyddiadau'r Pennaeth wedi cofnodi arni.

Mae disgwyl i'r Pennaeth gofnodi manylion unrhyw **dystiolaeth ychwanegol** a ddefnyddiwyd wrth ddod i benderfyniad am eich cais.

Mae disgwyl i'r Pennaeth roi **adborth llafar ar bob un o'r Safonau Ôl-drothwy** a'r **rhesymau** am ganlyniad y cais.

Dylai'r sylwadau fod yn glir, a chaniatáu i chi a'ch rheolwr llinell adnabod a thrafod blaenoriaethau am **ddatblygiad proffesiynol pellach**. Dylai'r adborth fod yn **llawn gwybodaeth ac yn sensitif**.

Mae **cofnod cryno** o'r rhesymau y mae safon wedi'i bodloni neu heb ei bodloni yn ddigonol, ond gall y Pennaeth fanylu mwy, pe dymuna.

Mewn **achos o wrthod eich cais** rhaid i'r Pennaeth roi adborth ysgrifenedig yn nodi rhesymau am wrthod y cais gan gyfeirio at bob un o'r safonau, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u cyrraedd. Dylai'r adborth gynnwys cyngor clir ar sut i ddatblygu er mwyn cyrraedd y safonau yn y dyfodol.

Hawl i apelio

Mae gennych hawl i apelio trwy ddefnyddio'r gweithdrefnau a nodir ym mholisi cyflog eich ysgol. Gweler hefyd y *School Teachers' Pay and Conditions Document,* paragraffau 15-18 Adran 3.

v) Y Safonau Cenedlaethol Ôl-drothwy (P1-P10)

Paratoi eich Cais

Gall ymddangos yn anodd cyrraedd y raddfa cyflogau uwch. Pwyswn arnoch i feddwl yn ofalus; mae'n debygol iawn bod modd i chi gyfeirio at dystiolaeth am bob un o'r Safonau Ôl-drothwy ar ôl ystyried holl agweddau eich gwaith. Pan nodir "lle bo'n briodol", mae'n debyg y bydd mwy o ddisgwyl i'r sawl sydd â chyfrifoldeb am fater penodol yn yr ysgol ddangos mwy o dystiolaeth.

Bydd yr asesiad yn edrych ar yr agweddau canlynol ar eich gwaith fel athro; rhaid cwrdd â'r safonau ym mhob grŵp:

1. **Priodoleddau Proffesiynol**

- Fframweithiau (P1)

2. **Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol**

- Addysgu a Dysgu (P2)
- Asesu a Monitro (P3 a P4)
- Pynciau a Chwricwlwm (P5)
- Iechyd a Lles (P6)

3. **Sgiliau Proffesiynol**

- Cynllunio (P7)
- Addysgu (P8)
- Gweithio fel Tîm a Chydweithredu (P9 a P10)

Manylir ar y rhain isod. Ceisiwn roi awgrymiadau i chi yn y ddogfen hon fydd o gymorth wrth lenwi'r ffurflen.

1. Priodoleddau Proffesiynol

Fframweithiau

Safon P1: Cyfrannu'n sylweddol, lle bo'n briodol, at roi polisïau ac ymarfer y gweithle ar waith ac i hyrwyddo cyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer eu gweithredu.

Mae angen dangos eich bod yn gwneud cyfraniad gweithredol i bolisïau a dyheadau'r ysgol. Meddyliwch am holl bolisïau'r ysgol a'ch cyfraniad chi i'w creu / gwerthuso / adolygu / gweithredu. Gallech gynnwys unrhyw gyfraniad yr ydych wedi eu gwneud:

- i gynllun datblygu'r ysgol
- i gynllun datblygu'r adran
- i weithrediad polisïau'r ysgol (e.e. disgyblaeth, cyfle cyfartal, iechyd a diogelwch, diogelwch plant, y cynllun cydraddoldeb i bobl anabl, bwlio, marcio ac asesu a.y.b.)
- i werthoedd yr ysgol

Gallwch gynnwys gweithgareddau gwirfoddol os dymunwch. Mae angen dangos bod gennych wybodaeth gyfredol a'ch bod yn gweithredu polisïau'r ysgol; mae modd hefyd cyfeirio at bolisïau addysg cenedlaethol.

Tystiolaeth posibl: cofnod o waith ar ddiwrnod HMS pan oeddech yn cydweithio gyda'r adran i greu polisi asesu newydd neu gynllun datblygu; asesiad risg cwblhawyd gennych cyn mynd ar daith ysgol; cofnod o ymdrin â sefyllfa o fwlio yn eich dosbarth gan ddilyn polisi'r ysgol; cofnod o drefniadau arbennig a wnaethpwyd i sicrhau cyfle i ddisgybl anabl fynychu taith adrannol neu gwblhau gwaith cwrs / gwaith maes; llyfrau disgyblion yn dangos eich bod yn dilyn polisi marcio ac asesu'r adran / ysgol, a.y.b.

2. Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol

2a) Addysgu a Dysgu

Safon P2: Meddu ar wybodaeth helaeth am, a dealltwriaeth helaeth o, sut i ddefnyddio ac addasu ystod o strategaethau addysgu, dysgu a rheoli ymddygiad, gan gynnwys sut i bersonoli dysgu i roi cyfleoedd i bob dysgwr gyflawni ei botensial.

Mae angen tystiolaeth eich bod yn weithiwr proffesiynol effeithiol sydd yn herio a chynorthwyo disgyblion i wneud eu gorau trwy ddefnyddio ystod eang o strategaethau i hybu dysgu ac i reoli'r dosbarth. Mae angen dangos tystiolaeth ynghylch: cynllunio a pharatoi strategaethau addysgu amrywiol;

cynllunio a pharatoi ar gyfer anghenion unigolion yn y dosbarth (trwy ddefnydd o ddata asesu blaenorol, efallai) a pharatoi tasgau gwahaniaethol; gwybodaeth a defnydd o strategaethau i reoli ymddygiad.

Ceisiwch ddangos eich bod yn gwneud y canlynol yn gyson ac yn effeithiol:

I) Cynllunio Gwersi

Rhaid dangos eich bod yn cynllunio gwersi a dilyniant gwersi er mwyn cwrdd ag anghenion addysgol unigol disgyblion. Bydd y Pennaeth yn chwilio am dystiolaeth:

- bod cynlluniau gwersi yn adlewyrchu anghenion addysgol y disgyblion, gyda gwaith gwahaniaethol, lle bo'n briodol
- eich bod yn trosglwyddo amcanion dysgu i'r disgyblion ac yn defnyddio gwaith cartref yn effeithiol
- o wersi strwythuredig a disgwyliadau clir addas ar gyfer pob disgybl o ran ymddygiad yn ogystal â chyrhaeddiad
- y rhoddir amcanion addysgu i wersi
- o waith estynedig y tu allan i'r gwersi

II) Rheoli Dosbarth

Dangoswch eich bod yn defnyddio amrediad o strategaethau priodol ar gyfer addysgu a rheoli ymddygiad. Bydd y Pennaeth yn chwilio am dystiolaeth:

- o ddefnydd priodol o wahanol strategaethau addysgu a thechnegau rheoli dosbarth er mwyn cymell disgyblion
- o gefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol penodol
- bod camymddwyn a bwlio yn cael eu trin yn effeithiol a phrydlon
- o ddefnydd da o amser ac adnoddau

Tystiolaeth posibl: cofnod o'r asesiad Rheoli Perfformiad ac arsylwi gwersi; cynlluniau gwersi penodol; taflenni gwaith neu adnoddau yr ydych wedi'u paratoi neu eu defnyddio; tystiolaeth o'r defnydd o waith gwahaniaethol lle bo'n briodol; llyfrau'r disgyblion; cofnod o ymdrin â sefyllfa o fwlio yn effeithiol gan ddilyn polisi'r ysgol; cwrs neu HMS perthnasol a fynychwyd; darllen / gwaith ymchwil priodol, a.y.b.

2b) Asesu a Monitro

Safon P3: Meddu ar wybodaeth helaeth am a dealltwriaeth ddeallus o'r gofynion asesu a'r trefniadau ar gyfer y pynciau/meysydd cwricwlwm a addysgant, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag arholiadau cyhoeddus a chymwysterau.

Safon P4: Meddu ar wybodaeth ddiweddar am a dealltwriaeth ddiweddar o'r gwahanol fathau o gymwysterau a manylion a'u haddasrwydd i fodloni anghenion dysgwyr.

Bydd y Pennaeth yn chwilio am dystiolaeth eich bod yn ymwybodol o'r gofynion asesu perthnasol ar gyfer y disgyblion yr ydych yn eu haddysgu, e.e. Cyfnod Sylfaen, CA2, CA3, CA4 a CA5.

Dangoswch ymwybyddiaeth o'r anghenion asesu / trefniadau asesu mewnol, ac allanol lle bo'n berthnasol, ar gyfer asesiad athro a safoni gwaith. Ceisiwch ddangos eich bod:

- yn defnyddio gwybodaeth am gyrhaeddiad blaenorol er mwyn gosod targedau heriol, realistig i'r disgyblion
- yn gwneud defnydd cyson o asesu fel rhan o fonitro cynnydd, gan addasu'r addysgu pe bai angen
- yn asesu gwaith disgyblion yn gyson a thrylwyr
- yn defnyddio'r broses asesu er mwyn rhoi adborth clir a chadarn
- yn llwyr ymwybodol o ofynion asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol (yn eich maes) a manylebau pwnc perthnasol
- yn llwyr ymwybodol o ofynion manylebau pwnc perthnasol i'ch maes

Tystiolaeth posibl: adroddiad Rheoli Perfformiad; eich cyfraniad at drefniadau'r ysgol ar gyfer gofynion asesu statudol / mewnol, e.e. llyfrau, ffeiliau, darnau gwaith cwrs wedi'u hasesu, adroddiad gan safonwr allanol y Bwrdd Dyfarnu (e.e. CBAC) ar waith yr Adran, sydd yn cynnwys sampl o waith eich disgyblion chi; eich profiad o ddewis gwahanol gyrsiau ar gyfer eich disgyblion; diwrnodau safoni ysgolion clwstwr neu adran; cyrsiau / HMS perthnasol a fynychwyd; profiad fel arholwr / safonwr; profiad o greu deunyddiau asesu.

2c) Pynciau a Chwricwlwm

Safon P5: Meddu ar wybodaeth fwy datblygedig a dealltwriaeth fwy datblygedig o'u pynciau / meysydd cwricwlwm a'r addysgeg gysylltiedig, gan gynnwys sut mae dysgu'n symud ymlaen o'u mewn.

Mae angen dangos bod gennych wybodaeth gyfredol o arfer da o ran dulliau addysgu yn eich maes. Dyma'r lle i ddangos eich **gwybodaeth o'r pwnc / pynciau a newidiadau diweddar yn y cwricwlwm**. Ceisiwch ddangos gwybodaeth drylwyr a chyfoes o'r pynciau rydych yn eu haddysgu a'ch bod yn ystyried datblygiadau cwricwlaidd ehangach sy'n berthnasol i'ch gwaith. Gallech gyfeirio at **ddatblygiadau cwricwlaidd neu feysydd llafur newydd** a'ch paratoadau chi i'w cynnwys yn eich gwersi. Gallwch ddangos **ymwybyddiaeth o gynlluniau cenedlaethol**, megis Llythrennedd, Rhifedd a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, a'u lle o fewn eich pwnc.

Ceisiwch roi esiamplau o sut rydych yn defnyddio'r addysgeg ddiweddaraf yn eich gwersi, e.e. gwybodaeth a strategaethau penodol.

Gallwch ddangos eich bod yn cymryd cyfrifoldeb dros eich **datblygiad proffesiynol** ac yn defnyddio ffrwyth y broses er mwyn **gwella'r addysgu a'r dysgu**. Defnyddir datblygiad proffesiynol yn ei ystyr ehangaf yma, gan gynnwys yr holl ddatblygiad proffesiynol a drefnwyd yn yr ysgol neu y tu allan iddi a gwaith darllen ac ymchwil personol.

Tystiolaeth posibl: cofnod o gyrsiau pwnc penodol, (am addysgeg y pwnc neu ddatblygiadau newydd); cyfraniad at waith paratoi a chynllunio o fewn y pwnc yn yr ysgol, e.e. cyfeiriad at ddiwrnod HMS mewnol adrannol neu ddiwrnod safoni adrannol / ysgolion clwstwr; gwaith disgyblion yn adlewyrchu defnydd o strategaethau amrywiol i symud y dysgu ymlaen; gwaith eich disgyblion yn cynnwys gwaith Rhifedd, Llythrennedd neu TGCh; gwaith darllen / ymchwil bersonol; eich cyfraniad i hyfforddi eraill am addysgeg eich pwnc ar gwrs mewnol / allanol, neu trwy baratoi adnoddau, a.y.b.

2ch) Iechyd a Lles

Safon P6: Meddu ar ddyfnder digonol o wybodaeth a phrofiad i allu rhoi cyngor ar ddatblygiad a lles plant a phobl ifanc.

Gallwch ddangos gwybodaeth a phrofiad o roi cyngor am faterion yn ymwneud â'ch pwnc neu faterion eraill.

Tystiolaeth posibl: adroddiadau'r disgyblion; sylwadau ar waith disgyblion; cofnod o gyngor neu wybodaeth a roddwyd adeg noson rhieni; gwybodaeth a roddwyd i Bennaeth Adran ar ddatblygiad addysgol y disgybl; gwybodaeth a roddwyd i berson â chyfrifoldeb am les disgyblion; cofnod o gwrs perthnasol a fynychwyd er diogelu plant, datblygiad a lles plant, iechyd a diogelwch, a.y.b.

3. Sgiliau Proffesiynol

3a) Cynllunio

Safon P7: Bod yn hyblyg, yn greadigol ac yn fedrus wrth ddylunio dilyniannau dysgu mewn gwersi ac ar draws gwersi sy'n effeithiol ac yn cyfateb yn gyson dda i amcanion dysgu ac anghenion dysgwyr ac sy'n integreiddio datblygiadau diweddar, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gwybodaeth am y pwnc / cwricwlwm.

Gweler eto'r sylwadau ar gyfer 2a(i) a 2c. Mae'n bwysig iawn fan hyn i gyfeirio at ddatblygiadau diweddar perthnasol o fewn eich pwnc a'r cwricwlwm. Cyfeiriwch at unrhyw ddatblygiadau newydd sydd yn effeithio arnoch chi, e.e. y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen, Bagloriaeth, Llwybrau Dysgu 14-19, cyrsiau neu ofynion newydd TGAU, U, UG, ac ati.

Tystiolaeth posibl: asesiad Rheoli Perfformiad; cynlluniau gwersi penodol; taflenni gwaith neu adnoddau rydych wedi'u paratoi neu eu defnyddio; llyfrau'r disgyblion; cwrs perthnasol a fynychwyd; darllen / gwaith ymchwil priodol; cyfeiriad at brosiect cwricwlaidd arbennig rydych wedi bod yn gyfrifol amdano, a.y.b.

3b) Addysgu

Safon P8: Meddu ar sgiliau addysgu sy'n arwain at ddysgwyr yn cyflawni'n dda yn berthynol i'w cyrhaeddiad blaenorol, gwneud cynnydd cystal â neu'n well na dysgwyr tebyg yn genedlaethol.

Ceisiwch ddangos eich bod yn defnyddio **gwybodaeth am gyrhaeddiad blaenorol** er mwyn **gosod disgwyliadau perthnasol** i ddisgyblion, ac yn **arolygu cynnydd** er mwyn rhoi **adborth cadarnhaol clir.**

Mae angen cyfeirio at **dystiolaeth o gynnydd**. Rhaid dangos, fel canlyniad i'ch addysgu, bod y disgyblion yn cyflawni'n dda o'i gymharu â'u cyrhaeddiad blaenorol, **gan wneud cynnydd cystal neu well na disgyblion cyffelyb yn genedlaethol**. Dangoswch hyn mewn marciau neu raddau profion / arholiadau cenedlaethol. Defnyddiwch asesiadau ysgol ar gyfer disgyblion lle nad oes yna brofion / arholiadau allanol.

Bydd rhaid i chi gyflwyno **tystiolaeth gynrychioliadol** o gynnydd eich disgyblion ar y ffurflen. Cymharwch â chyrhaeddiad blaenorol, a nodwch sut mae hyn yn cymharu â disgwyliadau o gynnydd yn yr ysgol.

- Os ydych yn addysgu mwy nag un dosbarth defnyddiwch 2-3 dosbarth fel enghreifftiau sy'n dangos amrediad gallu'r disgyblion.

- Os ydych yn addysgu un dosbarth yn unig, defnyddiwch enghreifftiau o 2-3 maes neu bwnc allweddol.
- Os yw'n bosibl, dylid seilio'r cynnydd ar gyrhaeddiad disgyblion ar ddechrau a diwedd amser penodol o fewn y 2-3 mlynedd diwethaf.
- Os yw'n bosibl, dewiswch ddosbarth sydd wedi bod o dan eich gofal chi yn unig, yn y maes priodol, dros y cyfnod dan sylw.

Awgrymir defnyddio'r fformat canlynol ar gyfer y cyflwyno:

- **cyd-destun byr** - esboniwch drefn grwpio'r disgyblion, e.e. set, band, gallu cymysg; disgrifiwch unrhyw amgylchiadau arbennig sy'n berthnasol i'r grŵp
- **gwybodaeth gwaelodlin** – soniwch am gyrhaeddiad blaenorol ar ddechrau'r cyfnod dan sylw
- **monitro cynnydd** – rhowch wybodaeth ynglŷn â sut mae cynnydd yn cael ei fonitro o fewn polisi asesu'r ysgol
- **y cynnydd disgwyliedig –** cyfeiriwch at hwn gan ddangos dealltwriaeth o sut mae'r cynnydd hwn yn cymharu â lefelau cyrhaeddiad cenedlaethol
- soniwch am **y cynnydd a wnaed** ar ddiwedd y cyfnod dan sylw
- gwnewch **arfarniad o'r cynnydd**

Disgwylir i Athrawon Bro neu Athrawon Peripatetig ddisgrifio amrediad y disgyblion a'r cwricwlwm maent yn eu haddysgu.

Disgwylir i'r Pennaeth wneud dyfarniad proffesiynol ynghylch a yw'r cynnydd a wnaed gan y disgyblion o fewn yr amrediad disgwyliedig, gan gymryd cyd-destun lleol a chenedlaethol yr ysgol i ystyriaeth.

Mae'n debygol y bydd y Pennaeth yn ystyried **4 prif bwynt**:

- Ydy'r dystiolaeth yn **gynrychiadol**?
- Ydy **pob disgybl** yn cael **gofal a sylw**?
- Ydy'r dystiolaeth yn dangos **cynnydd priodol**?
- Ydy lefel y cynnydd yn **cymharu'n ffafriol** â **data perfformiad** ar gyfer disgyblion mewn **amgylchiadau tebyg yn lleol ac yn genedlaethol**?

3c) Gweithio fel Tîm a Chydweithredu

Safon P9: Hyrwyddo cydweithredu a gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm.

Safon P10: Cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol cydweithwyr trwy hyfforddi a mentora, arddangos ymarfer effeithiol, a darparu cyngor ac adborth.

Mae'r safonau hyn yn ymwneud â'ch cyfraniad chi at ddatblygiad a llwyddiant yr ysgol. Ar gyfer P9 (fel P1) mae angen dangos eich bod yn gwneud **cyfraniad gweithredol i bolisïau a dyheadau'r ysgol** fel aelod o dîm eich adran a'r ysgol. Edrychwch eto ar y manylion yn **P1.**

Gall ymddangos yn anodd cael tystiolaeth ar gyfer **P10** ond ystyriwch yn ofalus, ac rydych yn siŵr o ddarganfod rhyw dystiolaeth berthnasol.

Tystiolaeth posibl: deunyddiau a baratowyd ar y cyd; bod yn gyfrifol am faes cwricwlaidd arbennig; cydweithio fel aelod o adran / ysgol gyfan trwy gyfrannu at drafodaethau mewn cyfarfodydd staff a chyfarfodydd adran; paratoi cynllun gweithredu / cynllun datblygu ar y cyd; gweithredu polisi, e.e. polisi asesu; eich cyfraniad at ran o gynllun gwaith / rhannu syniadau; cyfrannu at baratoi polisïau.

Tystiolaeth posibl P10: sesiynau safoni gwaith ar y cyd; dysgu ar y cyd; myfyriwr neu athro dibrofiad yn arsylwi yn eich gwers; mentora aelod llai profiadol / myfyriwr; cyfrannu at ddiwrnod HMS, e.e. gwneud cyflwyniad / arwain sesiwn trafod; adrodd yn ôl i'r adran / ysgol ar ôl cwrs; rhannu cofnod ysgrifenedig o gwrs; rhannu syniadau mewn cyfarfodydd staff / adran; unrhyw brofiad fel safonwr / arholwr CBAC / arolygwr; profiad yn paratoi deunyddiau ar lefel sirol / yn cyfrannu at gwrs sirol.

vi) Symud i fyny'r Amrediad Cyflog Uwch (U2 a U3)

Heblaw am eithriadau prin, ni chaiff athro sydd wedi croesi'r trothwy'n llwyddiannus yr hawl i symud i fyny at y lefel nesaf am **o leiaf dwy flynedd,** yn dilyn dau adolygiad o berfformiad llwyddiannus a dilynol.

Dylai'r adolygiad rheoli perfformiad gynnwys:

- amcanion perfformiad
- arsylwi yn y dosbarth
- tystiolaeth ychwanegol

Er mwyn sicrhau bod y cyrhaeddiad a'r cyfraniad wedi bod yn gyson ac yn sylweddol, bydd adolygiad perfformiad yn asesu a ydych wedi:

- parhau i gyrraedd y safonau
- datblygu'n broffesiynol, h.y. datblygu arbenigedd addysgu ers croesi'r trothwy

Nid oes angen llenwi ffurflen gais i symud i fyny at U2 ac U3. Mae UCAC yn cynghori aelodau i anfon llythyr i atgoffa'r Pennaeth pan mae'n amserol i chi gamu ymlaen ar y raddfa. Awgrymwn eich bod yn hysbysu'r Pennaeth yn ystod tymor yr haf fel bod modd cwblhau'r trefniadau erbyn dechrau mis Medi.

Dylai unrhyw un sydd eisoes wedi symud i U1 cyn i'r Safonau Ôl-drothwy newydd ddod i rym, symud i fyny'r uwch raddfa heb i'r Pennaeth gyfeirio at y safonau newydd daeth i rym yn Rownd 9 (Medi 2009).

Rhaid pwysleisio mai penderfyniad y corff perthnasol fydd caniatáu i chi symud i fyny at U2 ac yna U3, gan mai hwnnw fydd yn ei ariannu.

Atodiad

Y Safonau Diwedd Sefydlu – Cymru

1. Priodoleddau Proffesiynol

1.1 cynnal eu hunain ag unplygrwydd a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau yn eu gwaith proffesiynol

1.2 myfyrio ynghylch eu harfer proffesiynol a chymryd camau i'w wella, gan rannu cyfrifoldeb am eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol eu hunain

1.3 cydweithio a chydweithredu â'r rheini sy'n cyfrannu at waith yr ysgol

1.4 arddangos ymrwymiad i gyfle cyfartal, cyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant

2. Gwybodaeth a Dealltwriaeth

2.1 arddangos dealltwriaeth am arfer a'r safbwynt addysgol ehangach yng Nghymru wrth gymryd rhan mewn deialog proffesiynol

2.2 arddangos gwybodaeth waith fanwl am eu sector, yr ysgol maent yn addysgu ynddi a'u cyfrifoldebau proffesiynol perthnasol

2.3 arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn am y theori a'r sgiliau ymarferol yn y maes cwricwlwm neu'r pynciau a addysgir

2.4 cyflenwi gofynion cyffredin y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru hynny yw, sgiliau cyfathrebu, mathemategol, datrys problemau, creadigol a Thechnoleg Gwybodaeth; Cwricwlwm Cymreig a datblygiad personol a chymdeithasol

3. Cynllunio, Addysgu a Dysgu a Rheoli Dosbarth

3.1 cynllunio'n effeithiol i fodloni anghenion dysgu pob disgybl gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, y rheini ag Anghenion Addysgol Arbennig a nodwyd, disgyblion dawnus a thalentog a'r rheini â Saesneg neu Gymraeg yn iaith ychwanegol

3.2 arddangos hyfedredd cynyddol mewn dewis a defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu a dysgu ac adnoddau sydd ar gael, y maent yn eu gwerthuso'n feirniadol o ran dysgu disgyblion

3.3 gallu cyfiawnhau eu hymagwedd o ran y cwricwlwm, amcanion dysgu cynlluniau gwaith ac anghenion dysgu a galluoedd eu disgyblion

3.4 sicrhau safon dda o ymddygiad disgyblion drwy sefydlu rheolau a disgwyliadau uchel, er mwyn cyflawni perthnasoedd cadarnhaol;

gweithgarwch pwrpasol; ac amgylchedd priodol ar gyfer dysgu gan ystyried polisi ysgol yn briodol

4. Monitro, Asesu, Cofnodi ac Adrodd

4.1 cydnabod y lefel mae disgybl yn ei chyflawni a gwneud asesiadau ffurfiannol a chrynodol, yn annibynnol, mewn perthynas â thargedau cyrhaeddiad, lle bo'n berthnasol, a lefelau perfformiad sy'n gysylltiedig â phrofion neu gymwysterau eraill sy'n berthnasol i'r pwnc/pynciau neu'r cyfnodau a addysgir

4.2 cofnodi a defnyddio canlyniadau asesiad bob dydd i addasu eu haddysgu, a sicrhau dilyniant mewn dysgu disgyblion drwy nodi targedau dysgu priodol i unigolion a grwpiau o ddisgyblion

4.3 darparu adroddiadau am gynnydd a chyflawniadau disgyblion, gan nodi targedau a nodau dysgu priodol, a darparu cyfarwyddyd i alluogi rhieni/gofalwyr i gefnogi dysgu eu plant

Safonau ÔI-Drothwy (Cymru a Lloegr)

Priodoleddau Proffesiynol

Fframweithiau

P1 Cyfrannu'n sylweddol, lle bo'n briodol, at roi polisïau ac ymarfer y gweithle ar waith ac i hyrwyddo cyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer eu gweithredu.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol

Addysgu a dysgu

P2 Meddu ar wybodaeth helaeth am a dealltwriaeth helaeth o sut i ddefnyddio ac addasu ystod o strategaethau addysgu, dysgu a rheoli ymddygiad, gan gynnwys sut i bersonoli dysgu i roi cyfleoedd i bob dysgwr gyflawni eu potensial.

Asesu a monitro

P3 Meddu ar wybodaeth helaeth am a dealltwriaeth ddeallus o'r gofynion asesu a'r trefniadau ar gyfer y pynciau/meysydd cwricwlwm a addysgant, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag arholiadau cyhoeddus a chymwysterau.

P4 Meddu ar wybodaeth ddiweddar am a dealltwriaeth ddiweddar o'r gwahanol fathau o gymwysterau a manylion a'u haddasrwydd i fodloni anghenion dysgwyr.

Pynciau a Chwricwlwm

P5 Meddu ar wybodaeth fwy datblygedig am a dealltwriaeth fwy datblygedig o'u pynciau/meysydd cwricwlwm a'r addysgeg gysylltiedig gan gynnwys sut mae dysgu'n symud ymlaen o'u mewn.

Iechyd a lles

P6 Meddu ar ddyfnder digonol o wybodaeth a phrofiad i allu rhoi cyngor ar ddatblygiad a lles plant a phobl ifanc.

Sgiliau Proffesiynol

Cynllunio

P7 Bod yn hyblyg, yn greadigol ac yn fedrus wrth ddylunio dilyniannau dysgu mewn gwersi ac ar draws gwersi sy'n effeithiol ac yn cyfateb yn gyson dda i amcanion dysgu ac anghenion dysgwyr ac sy'n integreiddio datblygiadau diweddar, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gwybodaeth am y pwnc/cwricwlwm.

Addysgu

P8 Meddu ar sgiliau addysgu sy'n arwain at ddysgwyr yn cyflawni'n dda yn berthynol i'w cyrhaeddiad blaenorol, gwneud cynnydd cystal â, neu'n well na dysgwyr tebyg yn genedlaethol.

Gweithio fel tîm a chydweithredu

P9 Hyrwyddo cydweithredu a gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm.

P10 Cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol cydweithwyr trwy hyfforddi a mentora, arddangos ymarfer effeithiol, a darparu cyngor ac adborth.

Dyma restr o swyddogion cyflogedig UCAC – mae croeso mawr i chi gysylltu â nhw am gyngor pellach:

- Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol - elaine@athrawon.com
- Eryl Owain, Swyddog Maes y Gogledd – eryl@athrawon.com
- Dilwyn Roberts-Young, Swyddog Maes y De – dilwyn@athrawon.com
- Rebecca Williams, Swyddog Polisi – rebecca@athrawon.com

Neu ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950. **Medi 2009**

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

www.athrawon.com